



Eich cyf/Your ref P-05-1131  
Ein cyf/Our ref LG/00129/21

Janet Finch-Saunders AS  
Chair of the petitions committee

11th Chwefror 2021

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 20 Ionawr am ddeiseb sy'n nodi - "Yn dilyn dechrau'r gwaith carthu ym Mae Rhosili, bu tywod yn disbyddu i raddau sylweddol a difrifol ar draeth cyfagos Rhosili." Mae'r ddeiseb yn galw ar "Llywodraeth Cymru i roi terfyn ar waith carthu ar unwaith nes y cynhelir adolygiad gwyddonol o'r disbyddu tywod a'r hyn sydd, o bosibl, yn ei achosi" ac yn nodi yr ymddengys fod niferoedd sylweddol uwch o weddillion cregyn molysgiaid a "gallai'r sefyllfa ddatblygu i fod yn drychinebus i'r ecosystemau hynod fregus."

Caiff gwaith carthu agregau morol ei drwyddedu'n llym gan Dîm Trwyddedu Morol Cyfoeth Naturiol Cymru ar ran Gweinidogion Cymru yn unol â darpariaethau Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009. Rhoddir trwyddedau yn amodol ar asesiad o'r effaith amgylcheddol a hefyd, os yw'n briodol, astudiaethau effaith arfordirol. Defnyddir amodau trwydded i sicrhau cydymffurfiaeth a monitro a gorfodir y rhain gan swyddogion gorfodi morol Llywodraeth Cymru.

Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ag unrhyw amodau trwydded, mae'n ofynnol i gychod carthu agregol gael Systemau Monitro Electronig (EMS) ar eu byrddau (blychau du) sy'n cael eu monitro'n ddyddiol gan Ystad y Goron gyda'r canlyniadau'n cael eu hanfon at Dîm Trwyddedu Morol Cyfoeth Naturiol Cymru.

Mae'r safle carthu agregol agosaf ar Fanc Nobel (safle A476); tua 19km i'r de-orllewin lle mae gan Llanelli Sand Dredging Ltd (LSD) drwydded forol i echdynnu hyd at 2,000,000m tunnell o dywod y flwyddyn tan 2023. Adnewyddwyd y drwydded yn 2016 a rhoddwyd y drwydded hon gyntaf yn 2006 yn dilyn Ymchwiliad Cyhoeddus. Nid oes unrhyw waith carthu agregau morol yn digwydd ger traeth Rhosili, er bod y cwch LSD "Sospan Dau" yn angori ym mae Rhosili wrth aros i'r llanw ddychwelyd i'w angorfa lanio ym Mhwl.

Gwnaed gwaith a chynhaliwyd astudiaethau sylweddol yn gysylltiedig ag adolygiad o bolisi carthu agregau ar ddiwedd y 1990au ar adnoddau tywod, cefnforeg a bioleg rhanbarth Môr Hafren. Arweiniodd hyn at bolisi'n cefnogi mwy o garthu ar y môr, a dyna lle mae'n digwydd yn awr. Mae'r rhain ac astudiaethau ac adroddiadau eraill wedi ystyried effeithiau amgylcheddol ac arfordirol gan gynnwys [adolygiad technegol](#) o ganlyniadau monitro carthu agregol a gynhaliwyd ym mis Hydref 2016.

Y ddealltwriaeth bresennol yw bod hydrodynameg Môr Hafren yn achosi symudiad gwaddod cyfyngedig o'r gorllewin i'r dwyrain mewn dyfroedd dwfn gyda rhywfaint o symudiad ochrol mewn dyfroedd mwy bas yn nes at yr arfordir. Mae gwaith monitro safle banc Nobel yn dangos dim ond symudiad gwaddodion lleol ar draws yr ardal. Nid oes unrhyw waith ymchwil na monitro yn dangos unrhyw gysylltiad achosol â'r arfordir, ac ni ddisgwylid hyn oherwydd natur y prosesau ffisegol sydd ar waith.

Yn unol â hynny, nid yw'r cysylltiad a wneir gan y deisebwyr rhwng carthu agregol â symudiad tywod arfordirol yn cael ei gefnogi gan y dystiolaeth sydd ar gael.

Mae'r ddeiseb hefyd yn cyfeirio at gynnydd sylweddol mewn gweddillion cregyn molysgiaid a sêr môr yn cael eu golchi i'r lan, sy'n ymddangos yn gysylltiedig â stormydd ac a allai gael effaith ecolegol. Yn aml, yn sgil stormydd, mae pysgod cregyn yn cael eu golchi i'r lan - yn enwedig ar draethau'r de-orllewin o fae Caerfyrddin tua'r dwyrain i Borthcawl a thu hwnt. Y prif rywogaethau sy'n tiriog yw cylllell fôr (*Ensis siliqua* ac *E arcuatus*), cragen blisgyn (*Pharus legumen*), rhythwr y tywod (*Mya arenaria*), cragen dyfrgi (*Iutraria lutraria*), cocosen bigog (*Acanthocardia echinata*), rhywogaethau cregyn cylchog bach eraill, cocos cyffredin, cregyn gleision, draenog môr tyrchol (*Echnocardium cordatum*) ac yn ystod y gwanwyn, sêr môr cyffredin. Mae'r cregyn wystrys yn weddillion sy'n dyddio i ddiwedd y 1800au pan oedd y rhywogaethau yn fwy toreithiog yn lleol. Mae'r holl rywogaethau hyn wedi'u gwasgaru'n eang, yn doreithiog ac mae'r poblogaethau'n byw ac yn cael eu haddasu yn ôl yr amgylchedd morol symudol. Nid ystyrir bod golchi i'r lan ar ôl stormydd yn cynrychioli effeithiau ecolegol sylweddol.

Mae'r dystiolaeth felly'n awgrymu nad yw'r hyn y sylwyd arnynt yn Rhosili yn gysylltiedig â charthu agregol ond, yn hytrach, maent yn ymwneud â stormydd y gaeaf.

Yn gywir,



**Lesley Griffiths AS/MS**

Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig  
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru)  
[Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales](mailto:Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.